




# ROBUST RURAL-URBAN UPDATE

Mae Rural-Urban Outlooks: Unlocking Synergies (ROBUST) yn brosiect ymchwil Ewropeaidd sy'n gwella ein dealltwriaeth o'r rhagweithio sy'n digwydd rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Ei brif gysail yw bod cysylltiadau cryf rhwng ardaloedd gwledig a threfol, sydd yr un mor gefnogol o'i gilydd, yn allweddol er mwyn gwireddu datblygiad doeth, crwn a chynhwysol ar gyfer Ewrop gynaliadwy. Dechreuodd prosiect ROBUST ym mis Mehefin 2017 a bydd yn rhedeg tan fis tachwedd 2021. Mae'r prosiect yn dod â 24 o bartneriaid Ewropeaidd ynghyd sy'n cynrychioli sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac ymarfer. Maent yn gweithio gyda 11 o Labordai Byw rhanbarthol a phump o Gymunedau Maes.Practice.

## Labordy Byw Canolbarth Cymru

Mae Cymru Wledig yn wynebu sawl her sylweddol: pellenigrwydd, seilwaith, mynediad i farchnadoedd a gwasanaethau, economi amaethyddol sy'n newid a dyfodol ar ôl Brexit. Sut mae modd i gysylltiadau gwledig-trefol fynd i'r afael â'r rhain? Nid yw modelau twf presennol dan arweiniad dinasoedd bob tro yn darparu atebion i ardaloedd gwledig. Mae Labordy Byw Canolbarth Cymru yn cysylltu ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod ffyrdd newydd i greu cysylltiadau gwledig-trefol cadarnhaol ymhell o'r ddinas.

Mae ein gwaith yn cyfuno ymchwil a chymau gweithredu ymarferol. Rydym ni'n canfod ac yn profi sut mae datblygu doeth yn arwain at dwf rhanbarthol cynhwysol. Rydym ni'n cynorthwyo ac yn asesu mentrau newydd ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid o ran creu gweledigaeth strategol ar gyfer Cymru wledig. Mae tair Cymuned Faes ROBUST yn ein helpu ni ehangu'r hyn rydym ni'n ei ddysgu. Mae Cymuned Faes Systemau Bwyd Cynaliadwy yn rhoi diwydiant Cymreig allweddol mewn persbectif Ewropeaidd. Drwy Gymuned Faes Seilwaith Cyhoeddus a Gwasanaethau Cymdeithasol rydym ni'n rhannu datrysiadau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Cymuned Faes Cysylltiadau Diwylliannol yn ein hatgoffa ni bod diwylliant Cymru a'r celfyddydau yn hanfodol i ffyniant rhanbarthau.



## Arloesiadau Llywodraethu mewn Canolbarth Cymru




Un o amcanion allweddol Labordy Byw Canolbarth Cymru fu datblygu fframwaith cyfannol newydd ar gyfer polisi gwledig yng Nghymru sy'n targedu anghenion y rhanbarth yn effeithiol. Mae'r foment yn iawn ar gyfer ailfeddwl ymagweddau at bolisi llywodraethu gwledig yng Nghymru. Mae Brexit wedi ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau Cymru a'r DU ddylunio rhaglenni a chynlluniau cyllido newydd i ddisodli cronfeydd yr UE ar gyfer datblygu gwledig a rhanbarthol ac mae pandemig COVID-19 wedi datgelu anghydraddoldebau sylfaenol ac wedi tynnu sylw at gydgyssylltiad economïau a chymdeithasau gwledig a threfol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Labordy Byw wedi hwyluso proses o gyd-gynhyrchu Gweledigaeth Wledig newydd, dan arweiniad awdurdodau lleol gwledig yn Fforwm Gwledig CLLC ac yn cynnwys ystod o randdeiliaid ac unigolion. Trwy weithdai, cyfarfodydd ac arolwg ar-lein, buom yn trafod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r rhanbarth, archwilio senarios ar gyfer y dyfodol, ymchwilio i enghreifftiau o arloesi, a nodi ceisiadau allweddol am bolisi.

Mae'r datganiad [Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig](#) sy'n deillio o hyn, a lansiwyd ym mis Ionawr 2021, yn amlinellu saith blaenoriaeth: (1) Arallgyfeirio a gwyrrdu'r economi wledig; (2) datblygu sgiliau a chyfluoedd y gweithlu gwledig; (3) buddsoddi mewn seilwaith digidol a pharatoi ar gyfer trafndiaeth ôl-garbon; (4) annog twristiaeth gynaliadwy sydd wedi'i gwasgaru'n ehangach; (5) darparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion cymunedau gwledig; (6) cefnogi trefi bach gyda Menter Trefi Clyfar; a (7) grymuso cymunedau a chadw cyfoeth o fewn economïau lleol.

Bwriedir i'r cynigion yn y Weledigaeth ar gyfer Cymru Wledig gael eu cyflawni trwy strwythurau fel Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a'r Bargeinion Dwf rhanbarthol, gan gynnwys Bargen Dwf Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, nododd trafodaethau'r Labordy Byw hefyd alwadau am fwy o gydlynio llunio a darparu polisiau ledled Cymru Wledig ac am fesurau i adlewyrchu anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Mae'r [Adroddiad Dystiolaeth](#) yn amlinellu sawl opsiwn, gan gynnwys Comisiynydd Gwledig ac Asiantaeth Wledig, i'w trafod ymhellach gan randdeiliaid.



## Cynhadledd Derfynol ROBUST



## Learn more about ROBUST

ROBUST Project Coordinator  
Prof.dr.ir. JSC (Han) Wiskerke  
Professor and Chair of Rural Sociology  
Wageningen University  
[info@rural-urban.eu](mailto:info@rural-urban.eu)

To learn more about the ROBUST project and to get the latest information about cutting-edge research on rural-urban issues visit [www.rural-urban.eu](http://www.rural-urban.eu)

 [@RuralUrbanEurope](https://www.facebook.com/RuralUrbanEurope)

 [@RuralUrbanEU](https://twitter.com/RuralUrbanEU)

 [Rural Urban Europe](https://www.linkedin.com/company/rural-urban-europe)

## Y tu hwnt i ROBUST

Roedd lansiad y Weledigaeth ar gyfer Cymru Wledig ym mis Ionawr 2021 yn benllanw gwaith y Labordy Byw, ond dim ond dechrau'r her bolisi yw rhoi ei argymhellion ar waith. Y Weledigaeth Wledig oedd y sylfaen ar gyfer [Maniffesto Gwledig CLILC](#), gan lywio'r ddadl yn etholiadau Senedd ym mis Mai 2021. Mae cynigion yn y Weledigaeth Wledig wedi cael eu cymeradwyo gan ystod o randdeiliaid a'u trafod gyda gweinidogion y llywodraeth a gweision sifil. Rhagwelir y byddant yn bwydo i mewn i weithredu Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru, yn ogystal â chynhyrchu Cynllun Datblygu Gwledig newydd i Gymru. Mae dadl ar drefniadau llywodraethu ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru yn cael ei datblygu gan felin drafod newydd Cwmpawd Gwledig Cymru, gan adeiladu ar yr opsiynau a amlinellir yn y Weledigaeth Wledig.

Mae'r WLGA hefyd yn dilyn y Weledigaeth Wledig gyda gwaith pellach. Mae Grŵp Tasg a Gorffen o swyddogion awdurdodau lleol wedi'i sefydlu i edrych ymhellach ar her tai gwledig ac i ymhelaethu ar syniadau yn y Weledigaeth ar gyfer Cymru Wledig. Mae mwy o waith hefyd ar y gweill gyda phobl ifanc wledig, gan gynnwys arolwg ar-lein, i drafod eu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a dod o hyd i atebion i bwysau sy'n gyrru allfudo ieuencid o gymunedau gwledig yng Nghymru.

## Gwybodaeth Gyswilt Leol

### Mid Wales Living Lab

Tim Peppin

Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu  
Cynladwy / Director of Regeneration and  
Sustainable Development

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru /  
Welsh Local Government Association

[tim.peppin@wlga.gov.uk](mailto:tim.peppin@wlga.gov.uk)

[wlga.cymru](http://wlga.cymru) / [wlga.wales](http://wlga.wales)



ROBUST receives funding from the European Union's Horizon 2020 research and innovation programme under grant agreement No 727988. The content of this publication does not necessarily reflect the official opinion of the European Union. Responsibility for the information and views expressed therein lies entirely with the author(s).